O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1395 (Cy.166)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011

Gwnaed *27 Mai 2011*

Yn dod i rym *10 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2011, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd ar Ffordd Penglais, Aberystwyth yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Dan-y-coed i bwynt 86 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Maeshendre.

3. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2004**(2)**.